Adran Gwaith
a Phensiynau

# Gwaith a Ganiateir

## Mae gennym lawer o wahanol ffyrdd y gallwn gyfathrebu â chi

Os hoffech i ni gyfathrebu â chi mewn braille, Iaith Arwyddion Prydain, dolen glyw, cyfieithiadau, print bras, sain neu rywbeth arall, ffoniwch ni ar **0800 328 1744** neu ffôn testun **0800 169 0314** a dywedwch wrthym pa un sydd ei angen arnoch.

Mae galwadau i rifau 0800 am ddim o ffonau symudol a llinellau daear.

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk/cymraeg**

## Beth yw gwaith a ganiateir?

Gall gwaith a ganiateir eich helpu i ddysgu sgiliau newydd, eich helpu i feithrin eich hyder a'ch helpu i ddechrau meddwl am fathau o waith y gallech ei wneud.

Os oes gennych anabledd, salwch neu gyflwr iechyd efallai y byddwch yn gallu gwneud peth gwaith a chadw eich taliadau a chredydau Yswiriant Gwladol ar gyfer y Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA).

Mae gwaith a ganiateir yn golygu y gallwch:
- gweithio am lai nag 16 awr yr wythnos
- ennill dim mwy na £183.50 **bob wythnos**, ar ôl i dreth ac Yswiriant Gwladol gael ei dynnu i ffwrdd
- cael eich swm arferol o fudd-dal
- adeiladu eich sgiliau a'ch profiad
- cael eich cefnogi wrth i chi weithio – rydym yn galw hyn yn **gwaith a ganiateir â chymorth**.

Nid oes unrhyw derfyn ar nifer yr wythnosau y gallwch wneud gwaith a ganiateir â chymorth.

## Gwaith a ganiateir â chymorth

Mae gwaith a ganiateir â chymorth ar gyfer pobl ag anabledd, salwch neu gyflwr iechyd na allant weithio am fwy nag ychydig oriau bob wythnos. Mae'r gwaith yn cael ei oruchwylio gan weithiwr cymorth proffesiynol. Gweirthiwr cymorth proffesiynol yw rhywun sy'n gweithio i sefydliad cyhoeddus neu wirfoddol.

Nid oes unrhyw derfyn ar faint o oriau y gallwch chi wneud gwaith a ganiateir â chymorth. Rhaid i chi ennill dim mwy na £183.50 bob wythnos ar ôl treth ac mae yswiriant gwladol wedi'i dynnu i ffwrdd.

## Beth sydd angen i chi ei wneud

Darllenwch y ffurflen hon yn ofalus a gwnewch yn siŵr eich bod yn ei llenwi:

- **Tudalennau 3 a 4** - rhaid i chi ateb yr holl gwestiynau yn llawn
- **Tudalen 5** – Os ydych chi'n credu mai'r gwaith rydych chi am ei wneud yw gwaith a ganiateir â chymorth, rhaid i'ch gweithiwr cymorth proffesiynol lenwi'r rhan hon ar eich rhan
- **Datganiad** – mae'n rhaid i chi lofnodi a dyddio'r adran hon **cyn** i chi ei hanfon i'r Ganolfan Byd Gwaith.

Cyn i chi ddechrau gweithio, rhaid i chi lenwi ac anfon y ffurflen hon yn ôl. Os ydych chi eisoes wedi dechrau gweithio mae'n rhaid i chi anfon eich slip cyflog cyntaf gyda'r ffurflen hon. Ysgrifennwch mewn inc du a defnyddio priflythrennau. Os ydych chi eisiau, gallwch ei lawrlwytho a'i lenwi. Ewch i **www.gov.uk** a chwilio am PW1.

Anfonwch y ffurflen yn ôl yn yr amlen Freepost yr ydym wedi'i hanfon atoch, neu ei phostio i'r cyfeiriad ar frig unrhyw lythyrau ESA yr ydym wedi'u hanfon atoch. Peidiwch â mynd a'r ffurflen hon i mewn i'ch swyddfa Canolfan Byd Gwaith.

Mae'n iawn cael rhywun i'ch helpu chi i lenwi'r ffurflen hon, fel ffrind neu berthynas. Neu ffoniwch ni ar **0800 169 0310** a byddwn yn eich helpu ag ef.

## Sut y gall eich enillion effeithio ar eich budd-dal

Os gwnewch waith a ganiateir ac yn ennill mwy na £183.50 bob wythnos, neu'n gweithio am 16 awr neu fwy bob wythnos, bydd yn effeithio ar eich budd-dal.

Ni fydd treuliau fel arfer yn newid eich budd-dal os byddwch yn eu cael fel rhan o'r swydd. Mae treuliau yn golygu arian a delir i chi gan eich cyflogwr nad yw'n rhan o'ch cyflog. Fodd bynnag, bydd rhai treuliau fel teithio i'r gwaith ac oddi yno yn cael eu hystyried fel enillion. I gael gwybod mwy am dreuliau, gofynnwch i'r swyddfa sy'n delio â'ch budd-dal.

## Sut y gall eich enillion newid faint o dreth rydych yn ei dalu

Os byddwch yn dechrau gwaith a ganiateir, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth ar eich incwm ychwanegol. Byddwn yn rhoi gwybod i Gyllid a Thollau EM (HMRC) pan fydd eich gwaith a ganiateir wedi'i gytuno. Bydd HMRC yn cyfrifo a ddylech dalu treth.

## Sut y gall gwaith a ganiateir newid eich budd-daliadau eraill?

Os ydych chi'n cael budd-dal arall oherwydd nad ydych chi'n gweithio (er enghraifft Cymhorthdal Incwm, Budd -dal tai neu Ostyngiad Treth Cyngor), yna gellir lleihau neu stopio eich budd-dal os gwnewch unrhyw waith. Siaradwch â'ch anogwr gwaith y Ganolfan Byd Gwaith cyn i chi ddechrau unrhyw waith.

Os ydych chi'n cael budd -dal tai neu ostyngiad treth cyngor a'ch bod yn ystyried cychwyn gwaith a ganiateir, rhaid i chi siarad â'ch awdurdod lleol ar unwaith, oherwydd gallai'r swm a gewch newid. I gysylltu â'ch awdurdod lleol ewch i **www.gov.uk/find-local-council**

## Mynychu Asesiadau Gallu in Weithio ac apwyntiadau anogwyr gwaith

Efallai y bydd eich budd -dal yn cael ei atal neu ei leihau os na ewch i asesiad gallu i weithio neu apwyntiad anogwr gwaith pan ofynnwn i chi wneud hynny, heb reswm da.

## Eich ateb

### Chi

**01 Teitl**
Er enghraifft, Mr, Mrs, Miss, Ms, neu arall

**02 Cyfenw neu enw teuluol**

**03 Unrhyw enwau eraill yn llawn**

**04 Cyfeiriad**

Cod post

**05 Dyddiad geni**
DD/MM/BBBB

**06 Rhif ffôn y gallwn gysylltu â chi arno**

**07 Cyfeiriad e-bost**
Os oes gennych un.

**08 Rhif Yswiriant Gwladol**

### Gwaith rydych yn ei ddechrau neu wedi'i ddechrau

**09 Ydy eich gwaith yn hunangyflogedig?**

- ☐ Na
- ☐ Ydy

**10 Cyflogwr neu enw'r cwmni**

**11 Cyfeiriad y cyflogwr neu'r cwmni**

Cod post

**12 Teitl y swydd**

**13 Pa fath o bethau a wnewch yn y gwaith**

**14** **Ar ba ddyddiad wnaethoch ddechrau gwaith neu y byddwch yn dechrau gwaith?**

Os bydd y dyddiad hwn yn newid, rhowch wybod i ni.

DD/MM/BBBB

**15** **Faint fyddwch yn ei ennill ar ôl treth?**

Dyma'r swm ar ôl didynnu treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG).

£

☐ Bob wythnos

☐ Bob mis

**16** **Ydych chi'n cael unrhyw un o'r canlynol? Os felly, dywedwch wrthym amdanynt:**

- enillion neu ffioedd fel cyfarwyddwr
- tâl mamolaeth
- tâl gwyliau
- taliadau bonws
- cildyrnau rheolaidd
- Tâl Mabwysiadu Statudol (SAP)
- Tâl Mamolaeth Statudol (SMP)
- Tâl Tadolaeth Statudol (SPP)
- Tâl Salwch Statudol (SSP).

**17** **Sawl awr fyddwch yn gweithio bob wythnos?**

**18** **Os bydd eich oriau'n wahanol bob wythnos, dywedwch wrthym gymaint ag y gallwch am eich patrwm gwaith**

**19** **Pryd gewch eich taliad cyntaf?**

DD/MM/BBBB

**20** **A fyddwch yn cael unrhyw dreuliau?**

Mae treuliau yn golygu unrhyw arian a delir i chi gan eich cyflogwr nad yw'n rhan o'ch cyflog.

☐ Na **Ewch i gwestiwn 21**

☐ Byddaf Beth yw diben y rhain?

Faint a gewch a pha mor aml?

£

☐ Bob wythnos

☐ Bob mis

**21** **A ydych yn anfon eich slip cyflog cyntaf, cyfriflenni banc neu gyfrifon gyda'r ffurflen hon?**

☐ Na

☐ Ydw

## Gwaith a ganiateir wedi'i gynnal

Mae'n rhaid i'ch gweithiwr cymorth proffesiynol gwblhau'r adran hon. Gweithiwr cymorth proffesiynol yw rhywun sy'n gweithio i gorff cyhoeddus neu fudiad gwirfoddol ac sy'n trefnu gwaith i bobl sydd ag anableddau, salwch neu gyflyrau iechyd.

Mae'n rhaid i'r gweithiwr cymorth roi cymorth a goruchwyliaeth barhaus a rheolaidd dros y gwaith yr ydych yn dweud wrthym amdano.

**22 Teitl**

Er enghraifft Mr, Mrs, Miss, Ms, neu arall.

**23 Cyfenw neu enw teuluol**

**24 Unrhyw enwau eraill yn llawn**

**25 Cyfeiriad swyddogol**

Cod post

**26 Stamp y sefydliad**

**27 Eu rhif ffôn**

### Datganiad y gweithiwr cymorth:

Drwy gwblhau'r adran hon **rwyf yn cytuno** y bydd y gwaith hwn yn cael ei gefnogi a'i oruchwylio gan fy sefydliad yn barhaus ac yn rheolaidd.

**28 Llofnod y gweithiwr cymorth**

**29 Dyddiad**

DD/MM/BBBB

## Datganiad

**Efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi wneud llungopi o'ch ateb er mwyn cyfeirio ato yn y dyfodol.**

Rwyf yn datgan fy mod wedi darllen a deall y nodiadau ar flaen y ffurflen hon, mae'r wybodaeth a roddais ar y ffurflen hon yn gywir ac yn gyflawn.

Rwyf yn deall bod yn rhaid i mi roi gwybod am bob newid yn fy amgylchiadau yn brydlon a thrwy fethu â gwneud hynny efallai y byddaf yn agored i'm herlyn neu wynebu cosb ariannol. Byddaf yn ffonio **0800 328 1744**, neu'n ysgrifennu at y swyddfa sy'n talu fy mudd-dal, i roi gwybod am unrhyw newid yn fy amgylchiadau.

Os byddaf yn rhoi gwybodaeth ffug neu anghywir, neu'n methu â rhoi gwybod am newidiadau yn fy amgylchiadau yn brydlon, deallaf y gallai fy mudd-dal gael ei atal neu ei leihau ac y gellir adennill unrhyw ordaliad. Yn ogystal, efallai y byddaf yn cael fy erlyn neu wynebu cosb ariannol.

Deallaf hefyd y gall yr Adran ddefnyddio'r wybodaeth sydd ganddi neu y gallai ei chael yn y dyfodol i benderfynu a oes gennyf hawl i:

- budd-dal yr wyf yn ei hawlio
- unrhyw fudd-dal arall y gallaf ei hawlio
- unrhyw fudd-dal arall y gallaf ei hawlio yn y dyfodol.

**Mae'n rhaid i chi lofnodi'r ffurflen hon eich hun os gallwch, hyd yn oed os yw rhywun arall wedi'i llenwi ar eich rhan.**

**Llofnod**

**Dyddiad**

DD/MM/BBBB

## Sut mae DWP yn casglu a defnyddio gwybodaeth

Pan fyddwn yn casglu gwybodaeth amdanoch, gallwn ei defnyddio at unrhyw un o'n dibenion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- budd-daliadau a lwfansau nawdd cymdeithasol
- cynhaliaeth plant
- gwaith a hyfforddiant
- ymchwilio ac erlyn troseddau credydau treth
- polisiau pensiynau preifat
- cynllunio ar gyfer ymddeoliad.

Efallai y cawn wybodaeth amdanoch gan bartïon eraill at unrhyw un o'n dibenion fel mae'r gyfraith yn caniatáu, i wirio'r wybodaeth rydych yn ei darparu a gwella ein gwasanaethau. Efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth amdanoch i sefydliadau eraill fel mae'r gyfraith yn caniatáu, er enghraifft i ddiogelu yn erbyn trosedd.

I gael gwybod mwy am ein dibenion, sut rydym yn defnyddio gwybodaeth bersonol at y dibenion hynny a'ch hawliau gwybodaeth, gan gynnwys sut i ofyn am gopi o'ch gwybodaeth, ewch i **www.gov.uk/dwp/siarter-gwybodaeth-bersonol**

## Trin pobl yn deg

Rydym wedi ymrwymo i Ddeddf Cydraddoldeb 2010 ac i drin pobl yn deg. I ddarganfod mwy am y gyfraith hon, chwiliwch am 'Cydraddoldeb' ar **www.gov.uk**